**DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R BIL**
**Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.**

# Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

[FEL Y'I DIWYGIWYD AR ÔL CYFNOD 2]

## CYNNWYS

1 Diddymu amddiffyniad cosb resymol yn y gyfraith gyffredin
2 Hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd bod adran 1 yn dod i rym
3 Adroddiad ar effaith adran 1
4 Pŵer i wneud darpariaeth drosiannol etc. drwy reoliadau
5 Dod i rym
6 Enw byr

# Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

[FEL Y'I DIWYGIWYD AR ÔL CYFNOD 2]

Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddiddymu amddiffyniad cosb resymol yn y gyfraith gyffredin mewn perthynas â rhoi cosb gorfforol i blentyn sy'n digwydd yng Nghymru; ac at ddibenion cysylltiedig.

**Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

**1 Diddymu amddiffyniad cosb resymol yn y gyfraith gyffredin**

(1) Mae amddiffyniad cosb resymol yn y gyfraith gyffredin wedi ei ddiddymu mewn perthynas â rhoi cosb gorfforol i blentyn sy'n digwydd yng Nghymru.

(2) Yn unol â hynny, ni chaniateir cyfiawnhau rhoi cosb gorfforol i blentyn sy'n digwydd yng Nghymru mewn unrhyw achos sifil neu droseddol ar y sail ei bod yn gyfystyr â chosb resymol.

(3) Ni chaniateir ychwaith gyfiawnhau rhoi cosb gorfforol i blentyn sy'n digwydd yng Nghymru mewn unrhyw achos sifil neu droseddol ar y sail ei bod yn gyfystyr ag ymddygiad derbyniol at ddibenion unrhyw reol arall yn y gyfraith gyffredin.

(4) At ddibenion yr adran hon, ystyr "cosb gorfforol" yw unrhyw guro (yn yr ystyr sydd i "battery" yn y gyfraith gyffredin) a wneir fel cosb.

(5) Yn adran 58 o Ddeddf Plant 2004 (p. 31) (cosb resymol)—

(a) yn is-adran (1), ar ôl "battery of a child" mewnosoder "taking place in England",

(b) yn is-adran (3), ar ôl "Battery of a child" mewnosoder "taking place in England", ac

(c) mae'r pennawd yn newid i "Reasonable punishment: England".

**2 Hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd bod adran 1 yn dod i rym**

Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau cyn i adran 1 ddod i rym er mwyn hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r newidiadau i'r gyfraith sydd i'w gwneud gan yr adran honno.

**3 Adroddiad ar effaith adran 1**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r cyfnod adrodd ddod i ben, lunio a chyhoeddi adroddiad ar effaith diddymu, yn rhinwedd adran 1, amddiffyniad cosb resymol.

(2) Yn is-adran (1), ystyr "cyfnod adrodd" yw'r cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y daw adran 1 i rym.

**4 Pŵer i wneud darpariaeth drosiannol etc. drwy reoliadau**

(1) Caiff rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad â dod ag adran 1 i rym.

(2) Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan is-adran (1) yn arferadwy drwy offeryn statudol.

**5 Dod i rym**

(1) Daw'r adran hon, adran 2, adran 3, adran 4 ac adran 6 i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(2) Daw adran 1 i rym pan ddaw'r cyfnod o 2 flynedd sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol i ben.

**6 Enw byr**

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2019.